# Glandŵr Cymru
Canal & River Trust in Wales

## Dewch am dro i **Lanfa'r Goetre**

Roedd Glanfa'r Goetre yn llawn bwrlwm yn ystod y Chwyldro Diwydiannol dau gan mlynedd yn ôl. Erbyn heddiw, mae'n borth i ysblander Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac yn atyniad gwych i'r teulu cyfan.









**Map nid ar raddfa:** ardal o tua 1.5 milltir/2km

## Pwt bach o hanes

Roedd Glanfa Goetre yn ddolen gyswllt hollbwysig i ddiwydiant haearn a glo grymus Cymru ers talwm. Dyma lle cafodd glo, haearn crai, clai tân ar gyfer brics a chalchfaen eu llwytho ar gychod i'w cludo ar Gamlas Mynwy ac Aberhonddu i weithfeydd haearn Blaenafon, ac ymlaen i bedwar ban byd trwy Ddociau Casnewydd.

Y cyfan yn RHAD AC AM DDIM!*

## Pum peth i'w gwneud yng Nglanfa Goetre


- ☐ **Llogi** canŵ neu fynd ar daith cwch i fwynhau harddwch a thawelwch Camlas Mynwy ac Aberhonddu
- ☐ **Mynd am dro** ar gylchdaith (1.7 milltir) trwy goetiroedd hudolus â thylluanod, gwrachod (cyfeillgar gan mwyaf) ac ysgubau!
- ☐ **Archwilio'r** lanfa a'r hen odynnau calch, a darganfod nodweddion hanesyddol fel y ddyfrbont a'r Bwthyn Peiriannau
- ☐ **Taro heibio'r** Ganolfan Ymwelwyr i ddysgu mwy am Lanfa Goetre yn yr oes aur ddiwydiannol
- ☐ **Ymweld** â'r Safle Treftadaeth y Byd cyfagos ym Mlaenafon.

## Wyddech chi?...

Y pethau gorau i'w rhoi i hwyaid yw danteithion blasus fel:

- ceirch uwd
- reis
- pys
- letys wedi'i dorri
- hadau adar

Er y bydd hwyaid wrth eu bodd yn bwyta bara gwyn, creision a sglodion, mae bwyd fel hyn yn fwyd sothach i chi ac i'r hwyaid!



## Gwybodaeth

Glanfa Goetre
Llanofer, Y Fenni
Sir Fynwy, NP7 9EW

- Parcio (talu ac arddangos)
- Toiledau
- Caffi
- Canolfan Gwybodaeth
- Llogi beics
- Llogi canŵ
- Llogi cychod a thaith gwch
- Taith gerdded
- Llwybr
- Ymweliad hanner diwrnod

*** Cofiwch:**

Er bod y safle ar agor bob amser, efallai na fydd hynny'n wir am rai o'r cyfleusterau a'r teithiau cychod, a hwyrach bydd angen talu am rai pethau. Holwch i'r busnesau lleol cyn cychwyn ar eich taith.




Ewch i **canalriverexplorers.org.uk** am lond gwlad o bethau i'w gwneud fel teulu.

Diolch o galon i'n holl wirfoddolwyr am helpu i lunio'r rhain – rydych chi'n gwybod pwy ydych chi.

© Glandŵr Cymru/Canal & River Trust Rhif 1146792
02/18